Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Parcyrhun

**Ysgol Gynradd Parcyrhun**
**Villiers Road**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3HB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Parcyrhun

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Parcyrhun |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Helen Palmer |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Helen Palmer |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 08:30 tan 14:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 30.06.2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/10/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Cysoni'r modd mae ymarferwyr yn magu hyder llafar Cymraeg y plant wrth chwarae

A2 Darparu gwell cyfleoedd i blant ddatblygu eu holl fedrau yn yr ardal allanol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n dda ag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn awyddus i siarad ag oedolion ac mae bron bob un ohonynt yn hapus wrth gyd chware â'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n hyderus. Er enghraifft, maent yn rhannu sut maent yn teimlo yn ystod amser cofrestru bob bore.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy yr hoffent chwarae. Er enghraifft, maent yn symud rhwng gweithgareddau'n hyderus gan ddilyn eu hoffterau personol, fel coginio yn yr ardal chwarae rôl neu greu marciau ar fwrdd thema 'yr Hydref'. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a'u dysgu drwy ddefnyddio adnoddau sy'n eu diddori am gyfnodau hir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn hapus, yn llawn bywyd ac yn gyffrous i fwynhau profiadau'r dydd. Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall gweithdrefnau'r lleoliad ac yn gwybod ar ôl amser tacluso, bod angen golchi dwylo yn barod at amser snac.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn cadw at reolau ymddygiad y lleoliad yn dda. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n gwrtais gyda phlant eraill, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn rhannu adnoddau gyda chymorth ac anogaeth oedolyn. Maent yn dysgu sut i aros tro yn amyneddgar. Er enghraifft, maent yn aros eu tro i ddefnyddio'r gitâr, er mwyn dawnsio gyda'u ffrindiau.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau annibynnol da. Maent yn golchi eu dwylo yn effeithiol ac yn medru gwisgo gwisg tywydd gwlyb, gydag ond ychydig o gymorth gan ymarferwyr. Maent yn dangos balchder mawr pan maen nhw'n cyflawni hyn ac yn derbyn canmoliaeth gan ymarferwyr. Yn ogystal, maent yn arllwys llaeth a dŵr ac yn dewis o amrywiaeth o fwydydd i greu wrap yn ystod amser snac. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd wrth gymdeithasu ac ymddiddori yn y gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf yn ymfalchïo bod eu gwaith crefft yn cael ei arddangos ar fyrddau arddangos. Mae hyn yn creu naws a theimlad o hunan-werth a pherthyn ymysg y plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn cadw cofnodion am bryderon, damweiniau a digwyddiadau yn dda. Mae hyfforddiant yr holl ymarferwyr ynglŷn ag amddiffyn plant yn gyfredol ac yn ddefnyddiol, wrth drafod unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr, sy'n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau a'r arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo yn annibynnol ar yr amseroedd priodol.

Mae ymarferwyr yn modelu ymddygiad parchus a charedig yn effeithiol, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer y plant. Mae perthynas hyfryd i'w weld rhyngddynt a'r plant yn eu gofal. Maent yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac maent yn siarad yn synhwyrol, mewn ffyrdd y mae'r plant yn deall. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn atgoffa plant mai 'dwylo caredig' sydd i'w defnyddio yn y lleoliad.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau pob plentyn. Maent yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol gan rieni wrth iddynt gofrestru eu plant. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau unigol i bob plentyn yn ôl eu cam datblygiad unigol, ac yn gweithredu fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau penodol o blant. O ganlyniad, maent yn ymwybodol o gamau datblygu nesaf pob plentyn ac yn gweithredu'n effeithiol ar y camau nesaf yn nhaith ddysgu plant unigol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel Holi, Diwali a Dydd Gŵyl Dewi Sant yn llwyddiannus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu synhwyrol yr ymarferwyr yn annog y plant i gyd chwarae'n fwriadus, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau buddiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau ymchwiliol yn dda. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i addurno pwmpenni gyda wynebau hapus a thrist ac i beintio creaduriaid fel nadroedd lliwgar.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ac maent yn fedrus wrth gymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn sgwrsio'n naturiol gyda'r plant ar sut i ddatblygu eu syniadau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i lenwi silindrau gyda reis a defnyddio chwyddwydrau i drafod nodweddion pryfed gwahanol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn ystyried diddordebau'r plant ac yn dilyn eu hawgrymiadau er enghraifft wrth drefnu mynd am dro i'r siop leol i brynu nwyddau. Maent yn cyd-gynllunio'n dda i sbarduno dysgu'r plant trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel cyfatebu siapiau i flychau penodol. Maent yn trafod cynnydd y plant yn ofalus ac yn ystyried y camau nesaf yn y dysgu yn fwriadus.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn ymestyn eu dealltwriaeth trwy eu holi'n ddeallus wrth chwarae. Gwneir hyn wrth i'r plant greu marciau ar glipfwrdd pan fyddant yn rhifo llysiau yn yr ardal gartref, ac wrth iddynt ddidoli a rhifo madarch a moch y coed yn yr ardal natur. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd cyson a rheolaidd i wella medrau digidol cynnar y plant trwy ddefnyddio llechi electronig, ffonau symudol a chamerâu. Fodd bynnag, nid ydynt yn annog y plant bob tro i geisio ymateb yn Gymraeg ,er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r iaith a magu hyder ynddynt.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, trwy gyfleoedd i ddawnsio a chwifio rhubanau a chydbwyso tra'n perfformio symudiadau ioga. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel cymell y plant i greu rhythmau'n annibynnol gyda thambwrîn, drymiau a gitâr. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i gymysgu paent i greu lliwiau gwahanol ac i greu adeiladau uchel fel adeiladwyr. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu holl fedrau yn effeithiol yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrafod hanes cerflun lleol y twrch trwyth. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus trwy astudio arferion y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a Diwali a darllen llyfrau sy'n ymwneud â materion amlddiwylliannol ac anabledd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar ac adroddiadau cynnydd tymhorol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion iechyd a diogelwch. Er enghraifft maent yn sicrhau nad yw ymwelwyr yn cael mynediad i’r cylch oni bai bod aelod o staff yr ysgol yn rhoi mynediad iddynt.

Mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod y sesiynau er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel trwy weithredu ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn asesu risgiau yn effeithiol, sy’n cynnwys mynd am dro yn yr ardal leol a mynd i’r cae chwarae leol.

Mae’r arweinwyr yn ymateb yn brydlon i faterion yn ymwneud â diogelwch y plant ac i unrhyw achos sy’n codi. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â’r trefniadau i’w dilyn os oes angen gadael yr adeilad ar frys. Mae’r ymarferwyr yn cadw cofrestr ar gyfer pob plentyn sy’n mynychu’r sesiynau ac yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael yn drwyadl. Mae niferoedd yr ymarferwyr fel arfer yn rhagori ar ddisgwyliadau'r safonau, ac o ganlyniad, goruchwylir y plant yn effeithiol.

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu a’r ardaloedd chwarae yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant i gydweithio a chyfathrebu yn yr adeilad a thu allan. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae, y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn ysgogol ac yn addas ar gyfer y plant. Mae hyn yn galluogi’r plant i wneud penderfyniadau effeithiol am eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar greu amgylchedd naturiol er mwyn creu naws glòs a chartrefol. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau yn diddori ac yn dal sylw’r plant yn effeithiol. Mae’r adnoddau’n cael eu cadw ar lefel ymarferol i’r plant, er mwyn iddynt allu eu cyrraedd yn hawdd. Mae’r lleoliad yn daclus ac yn ddeniadol ac wedi’i gynnal a'i gadw’n dda. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn lân, o ansawdd da ac yn hygyrch i’r plant fedru gwneud dewisiadau'n annibynnol. Mae cyfleusterau tŷ bach a newid cewyn y lleoliad yn lân ac mae eu defnydd yn atgyfnerthu medrau annibynnol y plant yn llwyddiannus.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio arddangosfeydd yn bwrpasol i sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth o berthyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn arddangos lluniau o’r plant yn chwarae yn ardaloedd gwahanol y ddarpariaeth er mwyn dathlu eu hymdrechion a’u llwyddiannau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r arweinydd yn sicrhau bod prosesau effeithiol mewn lle, sy’n canolbwyntio’n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson i’r ddarpariaeth a’r gweithdrefnau dyddiol. Yn ogystal, mae’r lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol.

Mae’r arweinydd yn gweithio’n effeithiol gyda’r ymarferwyr diwyd i ddarparu profiadau diddorol er lles y plant. Mae eu gweledigaeth bwrpasol yn sicrhau darpariaeth gyflawn, sy’n canolbwyntio’n gadarn ar wella dysgu’r plant, a chynnal eu lles. Mae’r

ymarferwyr yn cynnig cymorth bugeiliol gofalus, gan gysuro'r plant yn garedig a chanmol llwyddiannau'n frwdfrydig. Mae'r holl ymarferwyr yn cymell y plant i wneud eu gorau glas trwy heriau difyr ac anogaeth gefnogol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant da yn effeithio'n llwyddiannus ar arferion y lleoliad. Maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar greu gwelliannau. Mae'r person cofrestredig, sy'n arwain y lleoliad, a'r ymarferwyr yn dîm cytûn. Maent yn cydweithio'n gydwybodol a gwrando'n dda ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan yr arweinydd drefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad. Mae hi'n cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ymarferwyr i adnabod cryfderau'r ddarpariaeth a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn arwain at ganolbwyntio ar ddatblygu agweddau penodol fel gwella medrau datrys problemau'r plant.

Mae'r arweinydd yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau ystyrlon gyda'r holl randdeiliaid, fel y rhieni a gofalwyr, Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn synhwyrol, er enghraifft wrth ehangu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r cylch.

Mae'r arweinydd yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Mae'n sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn galluogi iddynt fynychu hyfforddiant buddiol i gefnogi dysgu'r plant. Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn dda. Mae agweddau cadarnhaol a diffuant yr arweinwyr yn hyrwyddo profiadau cyffrous ac addysgiadol i'r plant. Gwneir hyn trwy gyllido adnoddau gwerthfawr, fel adnoddau digidol a chyfarpar ysgogol i'r ardaloedd dysgu, fel byrddau golau a synwyryddion metel.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau cadarn ac mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi'r lleoliad trwy gynnig profiadau difyr i'r plant i ddysgu am eu cynefin. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r siop leol i brynu nwyddau ac yn ymuno mewn gwibdeithiau i barciau cyfagos i ddysgu am fyd natur. Yn ogystal, mae perthynas gynhyrchiol yn bodoli gyda'r ysgol, sy'n paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 29 | No evidence of supervisions or appraisals in place for staff members or person in charge. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 13 Rhagfyr 2023